

CYNGOR SIR CEREDIGION
TELERAU AC AMODAU PRYNU ("Telerau ac Amodau")

1. DIFFINIADAU

1.1. Yn y Telerau ac Amodau hyn, bydd i'r geiriau a'r ymadroddion a ganlyn yr ystyrion a ganlyn: ystyr y "Cyngor" yw Cyngor Sir Ceredigion a bydd yn cynnwys ei bersonél, ei swyddogion a'i gyflogaion a awdurdodwyd yn briodol a/neu unrhyw barti arall o'r fath a awdurdodwyd yn briodol; ystyr y "Cyfeiriad Danfon" yw'r cyfeiriad a nodir yn yr Archeb Swyddogol; ystyr "Nwyddau" yw'r nwyddau a/neu'r gwaith sy'n rhan o'r nwyddau hynny a nodir yn yr Archeb Swyddogol, gan gynnwys unrhyw ychwanegiadau ati ac unrhyw ran neu rannau ohoni; ystyr "Deunydd" yw unrhyw fanylebau, cyfarwyddiadau, cynlluniau, data, lluniadau, cronfeydd data, patrymau, modelau, dyluniadau neu ddeunyddiau eraill; ystyr "Archeb Swyddogol" yw archeb a osodir ar ran y Cyngor sy'n rhoi manylion swm y Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau, disgrifiad ohonynt a'u manyleb, gan gynnwys unrhyw wybodaeth arall sy'n ymwneud â'r archeb sy'n ymddangos trosodd; ystyr "Pris y Contract" yw pris y Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau fel y'u nodir yn yr Archeb Swyddogol; ystyr y "Contractwr" yw'r busnes, y cwmni neu'r person y cyfeiriwyd yr Archeb Swyddogol ato; ystyr "Hawliau Eiddo Deallusol" yw'r hawlfraint neu'r hawliau dylunio yn y Deunydd neu unrhyw hawl unigryw arall i'w ddefnyddio; ystyr "Gwasanaethau" yw'r Gwasanaethau a bennir yn yr Archeb Swyddogol, gan gynnwys unrhyw ychwanegiadau ati ac unrhyw ran neu rannau ohoni.

2. SAIL Y PRYNU

2.1. Mae derbyn Archeb Swyddogol yn gyfystyr â derbyn y Telerau ac Amodau hyn a fydd yn gymwys er gwaethaf unrhyw amod i'r gwrthwyneb yn amodau'r Contractwr (ni waeth ar ba ddyddiad y rhoddir gwybod i'r Cyngor amdanynt) neu unrhyw amod a sefydlwyd drwy unrhyw fasnach flaenorol (y tybir i'r graddau y mae'n anghyson â'r Telerau ac Amodau ei bod wedi'i hildio) ac mae'r Contractwr yn ildio unrhyw hawl y gallai'r Contractwr fel arall ei chael o'r amodau hynny neu'r fasnach honno.

2.2. Cyfrifoldeb y Contractwr yw cael cadarnhad ysgrifenedig o unrhyw newidiadau llafar i'r Archeb Swyddogol neu gyfarwyddiadau llafar a roddir gan y Cyngor yn y gwaith.

3. Y PWRPAS Y MAE ANGEN Y NWDYDDAU A/NEU'R GWASANAETH

3.1. Bydd y Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau:-

3.1.1. yn cael eu cyflenwi yn gyfan gwbl unol â'r fanyleb (a/neu unrhyw sampl a ddarparwyd yn flaenorol i'r Cyngor) a byddant yn cydymffurfio â'r holl safonau ac amodau perthnasol a'r swm a'r disgrifiad a ddangosir yn yr Archeb Swyddogol;

3.1.2. yn addas i'r diben a nodir yn yr Archeb Swyddogol ac ni fydd diffygion o ran eu dyluniad, eu deunydd na'u saernïaeth;

3.1.3. yn cydymffurfio ym mhob ffordd â darpariaethau unrhyw ofyniad statudol sydd mewn grym am y tro o ran y Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau a'u gwneuthuriad, y dull o'u gweithredu, a'u diogelwch, yn ogystal â chydymffurfio â manyleb unrhyw safon Brydeinig neu Ewropeaidd berthnasol neu unrhyw God Ymarfer perthnasol sy'n gyfredol ar y dyddiad y caiff y Nwyddau eu danfon a/neu y caiff y Gwasanaeth ei gyflawni, ac unrhyw fanylebau a/neu luniadau a ddarparwyd gan y Cyngor;

3.1.4. yn cydymffurfio â'r amodau a'r gwarantiadau a awgrymir gan Ddeddf Gwerthu Nwyddau 1979, Deddf Cyflenwi Nwyddau a Gwasanaethau 1982, statudau/deddfau perthnasol ac unrhyw ailddeddfiad(au) neu addasiad(au) statudol ohonynt (fel y'u diwygiwyd) ac eithrio pan fônt yn anghyson â thelerau eraill a geir yn y ddogfen hon pan fydd y telerau hyn yn gymwys;

3.1.5. yn cael eu darparu gan y Contractwr a fydd wedi cael gafael ar yr holl drwyddedau, caniatadau neu hawlenni sy'n angenrheidiol i gyflawni'r Gwasanaethau a/neu i gyflenwi'r Nwyddau;

3.1.6. yn cael eu darparu mewn modd proffesiynol a chymwys, gyda medr, gofal a diwydrwydd rhesymol, mewn modd da a chreffftus, ac yn unol â'r Archeb Swyddogol gan bersonél â chymwysterau a phrofiad priodol a fydd yn cael eu goruchwyllo'n llwyr bob amser;

3.1.7. yn cael eu cyflenwi gyda dogfennaeth a chyfarwyddiadau Saesneg digonol o ran sut i'w defnyddio a'u storio a, phan fo'n berthnasol, unrhyw ddyddiad y bydd y cynnwys yn dod i ben;

3.1.8. pan ofynnir am hynny, yn elwa o unrhyw warant, gwarantiad neu hawl o'r fath sydd gan y Contractwr yn erbyn unrhyw weithgynhyrchwr neu gyflenwr trydydd parti unrhyw Nwyddau neu Wasanaethau neu unrhyw ran ohonynt, wedi'i (h)aseinio i'r Cyngor;

3.1.9. yn cael eu cyflenwi yn unol â'r holl ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch berthnasol, codau ymarfer perthnasol, ac unrhyw safonau, polisiâu, gweithdrefnau a dogfennau eraill a hysbysir yn rhesymol gan y Cyngor; ac

3.1.10. os ydynt yn beryglus, yn cael eu marcio'n glir gan y Contractwr drwy roi'r symbol perygl rhyngwladol gydag enw'r deunydd yn Saesneg arnynt. Bydd nwyddau o'r fath hefyd yn cael eu pecynnu, eu labelu a'u cario yn unol â chyfraith y DU neu gytundebau a dderbynnir yn rhyngwladol.

3.2. Bydd unrhyw Ddeunydd a gyflenwir neu a ddarperir gan y Cyngor i'r Contractwr, neu a gynhyrchir yn benodol gan y Contractwr i'r Cyngor, ynghyd â'r Hawliau Eiddo Deallusol yn y Deunydd, yn eiddo unigryw i'r Cyngor. Ni fydd y Contractwr yn datgelu i unrhyw drydydd parti nac yn defnyddio unrhyw Ddeunydd o'r fath ac eithrio i'r graddau ei fod neu ei fod yn dod yn wybodaeth gyhoeddus heb fod unrhyw fai ar y Contractwr, neu fel y bo'n ofynnol at ddibenion yr Archeb Swyddogol.

3.3. Amser fydd hanfod rhwymedigaethau'r Contractwr yn unol â'r Telerau ac Amodau hyn a'r Archeb Swyddogol.

3.4. Mae'r Cyngor yn dibynnu ar fedr a chrebwyll y Contractwr drwy ei fod yn honni ei fod yn medru cyflenwi'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau a chyflawni'r Archeb Swyddogol.

3.5. Heb niweidio unrhyw un o hawliau eraill y Cyngor i'w rwyddi, bydd gan y Cyngor bŵer ar unrhyw adeg i orchymyn yn ysgrifenedig bod rhaid ailgyflawni'n briodol (er gwaethaf unrhyw archwiliad blaenorol ohono neu unrhyw daliad interim amdano) unrhyw waith nad yw, ym marn y Cyngor, yn unol â'r Archeb Swyddogol.

3.6. Mae'r Contractwr yn gwarantu bod ganddo gapasiti llawn, awdurdod a phob cydsyniad angenrheidiol i ymrwmo i'r Archeb Swyddogol ac i gyflenwi'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau.

4. PRIS Y CONTRACT A'R TELERAU TALU

4.1. Bydd pob pris a roddir mewn sterling (£). Bydd Pris y Contract ar gyfer y Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau yn cael ei ddatgan yn yr Archeb Swyddogol ac, oni nodir yn wahanol, ni fydd yn cynnwys unrhyw dreth ar werth gymwys a bydd yn cynnwys pob ffi, gan gynnwys ffioedd pecynnu, pacio, anfon, cario, yswiriant, danfon ac unrhyw dollau, trethi neu ardollau ac eithrio treth ar werth, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt.

4.2. Ni chaniateir cynyddu Pris y Contract (boed oherwydd treulïau atodol, cynnydd yng nghostau deunydd, llafur neu gludiant, amrywiadau mewn cyfraddau cyfnewid, neu fel arall) heb ganiatâd ysgrifenedig y Cyngor ymlaen llaw.

4.3. Bydd gan y Contractwr hawl i anfonebu'r Cyngor pan fydd wedi cwblhau danfon y Nwyddau neu gyflawni'r Gwasanaethau, yn ôl y digwydd, a bydd pob anfoneb yn dyfynnu rhif yr Archeb Swyddogol, holl fanylion y Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau a ddanfonwyd/gyflawnwyd, ac unrhyw ofynion eraill a hysbyswyd gan y Cyngor. Pan fo'r parti on wedi cytuno i ddanfon fesul swp, oni chytunir fel arall, caiff y Contractwr anfonebu am bob swp a ddanfonwyd.

4.4. Ni thelir am y Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau oni bai a hyd nes y darperir anfoneb (neu ddogfen electronig gyfatebol y cytunir arni) i'r Cyngor. Os yw'r Archeb Swyddogol yn pennu bod rhaid anfon yr anfoneb i gyfeiriad ac eithrio'r cyfeiriad y danfonir y Nwyddau iddo neu y cyflawnir y

Gwasanaethau ynddo, ni wneir unrhyw daliad hyd nes i'r anfoneb honno ddod i law yn y cyfeiriad cywir.

- 4.5. Oni nodir fel arall yn yr Archeb Swydddogol, bydd y Cyngor yn talu Pris y Contract ar gyfer y Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau o fewn 30 diwrnod i'r Cyngor dderbyn anfoneb briodol a dilys neu, os yw'n hwyrach, ar ôl i'r Cyngor dderbyn y Nwyddau neu'r Gwasanaethau dan sylw. Os bydd unrhyw ymholiadau'n codi o ran anfoneb y Contractwr, ni wneir unrhyw daliad hyd nes bod yr ymholiadau hynny wedi'u datrys er boddhad rhesymol y Cyngor.
- 4.6. Bydd gan y Cyngor hawl i wrthbwyso yn erbyn Pris y Contract unrhyw symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor gan y Contractwr.
- 4.7. Ni fydd y Cyngor yn gyfrifol am dalu unrhyw ffioedd mewn perthynas ag (i) nwyddau a/neu wasanaethau a gyflenwir heb Archeb Swydddogol; (ii) unrhyw nwyddau neu wasanaethau a gyflenwir tu hwnt i'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau a nodir yn yr Archeb Swydddogol; na (iii) unrhyw amrywiadau i'r Archeb Swydddogol, oni bai fod y Cyngor wedi caniatáu'r amrywiadau hynny yn ysgrifenedig ymlaen llaw.

5. DANFON, TEITL A RISG

- 5.1. Bydd y Contractwr yn danfon y Nwyddau i'r Cyfeiriad Danfon, neu'n cyflawni'r Gwasanaethau yn y Cyfeiriad Danfon, neu unrhyw gyfeiriad arall a gyfarwyddir gan y Cyngor yn ysgrifenedig. Bydd y Nwyddau wedi'u danfon pan fyddant wedi'u dadlwytho yn y Cyfeiriad Danfon a phan fydd y Cyngor wedi derbyn y danfoniad hwnnw yn ysgrifenedig.
- 5.2. Oni fydd y Cyngor yn rhoi cyfarwyddyd fel arall, bydd y Contractwr yn danfon y Nwyddau a/neu'n cwblhau'r gwaith sy'n ffurfio'r Nwyddau neu'n cyflawni'r Gwasanaethau erbyn y dyddiad(au) a'r amser(oedd) a bennir yn yr Archeb Swydddogol ac, os na chytunir yn benodol ar amser danfon, bydd y danfoniad yn cael ei wneud o fewn 14 diwrnod i ddyddiad yr Archeb Swydddogol.
- 5.3. Pan fo'n debygol y bydd unrhyw oedi afresymol o ran danfon y Nwyddau neu gyflawni'r Gwasanaethau (neu unrhyw ran ohonynt), bydd y Contractwr yn rhoi gwybod ar unwaith i'r Cyngor am yr oedi hwnnw a, heb niweidio unrhyw rwymedi, hawl neu achos arall, bydd gan y Cyngor hawl i ganslo'r Archeb Swydddogol os yw'r oedi, yn ei farn ef, yn debygol o beryglu pwrpas yr Archeb Swydddogol.
- 5.4. Os ceir unrhyw streic, cloi allan, tân, ffrwydrad neu ddamwain neu os bydd busnes neu waith y Contractwr yn stopio am reswm sydd tu hwnt i'w reolaeth a allai ei atal neu ei rwystro rhag defnyddio neu ddanfon unrhyw Nwyddau a/neu Wasanaethau, caiff y Cyngor ddewis atal dros dro neu ohirio'r taliad amdanynt hyd nes bod yr amgylchiadau sy'n atal neu'n rhwystro defnyddio neu ddanfon y Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau hynny wedi dod i ben. Os yw'r ataliad neu'r rhwystr yn para am fwy nag 20 diwrnod, bydd gan y Cyngor hawl i ganslo'r Archeb Swydddogol.
- 5.5. Rhaid darparu nodyn danfon gyda'r holl Nwyddau sy'n dyfynnu rhif Archeb Swydddogol y Cyngor ac yn nodi manylion am swm y Nwyddau, eu pwysau, unrhyw gyfarwyddiadau storio arbennig, y dyddiad y daw'r cynnwys i ben pan fo'n berthnasol, y pris, a disgrifiad ohonynt.
- 5.6. Bydd y Contractwr:-
 - 5.6.1. yn anfon i'r Cyngor ar ddiwrnod danfon pob swp nodyn danfon o'r fath, ynghyd ag anfoneb ar gyfer y swp hwnnw fel y'i nodir yn yr Archeb Swydddogol;
 - 5.6.2. yn marcio holl fanylion yr Archeb Swydddogol (gan gynnwys heb niweidio cyffredinolrwydd yr uchod yr holl gyfeirnodau angenrheidiol) yn glir ar y swp, y pecyn, y nodiadau pacio, y nodiadau cyngor, yr anfonebau ac unrhyw ohebiaeth arall sy'n ymwneud â'r Archeb Swydddogol a ddanfonir i'r Cyngor;
 - 5.6.3. yn sicrhau bod y Nwyddau neu unrhyw ran ohonynt yn cael eu pecynnu'n briodol ac yn ddigonol i sicrhau nad oes unrhyw risg o ddifrodi'r Nwyddau tra maent yn cael eu cludo, ac yn rhoi rhif yr Archeb Swydddogol berthnasol ar ddeunydd pecynnu'r Nwyddau;
 - 5.6.4. yn sicrhau bod yr holl ddeunydd pecynnu'n cydymffurfio â phob gofyniad deddfwriaethol neu ofyniad arall, ac unrhyw ofyniad o'r fath, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â safonau amgylcheddol a safonau iechyd a diogelwch galwedigaethol. Oni chytunir fel arall yn ysgrifenedig, ni fydd y Cyngor yn atebol o gwbl am ddychwelyd deunydd pecynnu'r

Nwyddau. Bydd y Contractwr yn casglu heb godi ffi unrhyw gynwysyddion dychweladwy (gan gynnwys paedi) o fewn 21 diwrnod i ddanfon y Nwyddau, oni chaiff gyfarwyddyd fel arall gan y Cyngor. Caiff y Cyngor ddychwelyd cynwysyddion gwag na chânt eu casglu yn y modd hwn ar draul y Contractwr neu eu gwaredu fel arall yn ôl disgrisiwn y Cyngor.

- 5.7. Mae'r Contractwr yn gwarantu bod y Nwyddau'n cael eu cyflenwi'n rhydd rhag cymal teitl a osodir gan naill ai'r Contractwr neu drydydd parti. Bydd y teitl yn y Nwyddau'n trosglwyddo i'r Cyngor pan gânt eu danfon neu pan fydd y Cyngor yn talu neu'n talu'n rhannol am y Nwyddau, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf.
- 5.8. Bydd y Contractwr yn parhau i fod yn gyfrifol am y Nwyddau hyd nes yr adeg y byddant wedi eu danfon. Os nad yw'r Cyngor am unrhyw reswm yn gallu derbyn y Nwyddau ar yr adeg y cytunwyd arni, bydd y Contractwr yn storio ac yn diogelu'r Nwyddau hynny ar draul y Contractwr ac yn cymryd pob cam rhesymol i'w hatal rhag cael eu difrodi na'u difetha hyd nes iddynt gael eu danfon.
- 5.9. Oni fydd y Cyngor yn cytuno fel arall yn ysgrifenedig, bydd y Contractwr yn darparu ar ei draul ei hun unrhyw staff, cyfarpar, offer, peiriannau, deunyddiau neu eitemau y mae eu hangen i ddarparu'r Gwasanaethau a/neu i ddanfon y Nwyddau.

6. GWRTHOD AC ARCHWILIO

- 6.1. Bydd gan y Cyngor hawl i archwilio a/neu i brofi unrhyw Nwyddau a/neu Wasanaethau. Yn achos Nwyddau neu Wasanaethau y canfyddir eu bod yn ddiffygiol neu eu bod o ansawdd is na'r fanyleb neu eu bod yn wahanol i'r fanyleb o ran ffurf neu ddeunydd neu nad ydynt yn cydymffurfio ag unrhyw un o delerau'r Telerau ac Amodau hyn, boed yn ddatganedig neu'n oblygedig, (y "Nwyddau neu Wasanaethau Diffygiol"), caiff y Cyngor, yn ôl ei ddisgrisiwn:
 - 6.1.1. canslo'r Archeb Swydddogol yn unol â chymal 7.1;
 - 6.1.2. peri iddi fod yn ofynnol i'r Contractwr, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, naill ai atgyweirio neu amnewid y Nwyddau neu'r Gwasanaethau Diffygiol yn y Cyfeiriad Danfon (ar draul y Contractwr) neu ad-dalu i'r Cyngor Bris y Contract o ran y Nwyddau neu'r Gwasanaethau Diffygiol. Bydd unrhyw atgyweiriadau, amnewidiadau neu ad-daliadau eu hunain yn ddarostyngedig i'r Telerau ac Amodau hyn;
 - 6.1.3. prynu nwyddau a gwasanaethau â'r un disgrifiad â'r Nwyddau neu'r Gwasanaethau, neu ddisgrifiad tebyg iddynt, o le arall, ac adennill gan y Contractwr swm sy'n gyfwerth â'r gwahaniaeth rhwng cost prynu'r nwyddau neu'r gwasanaethau eraill a'r swm a fyddai wedi bod yn daladwy i'r Contractwr o ran y Nwyddau a'r Gwasanaethau i'w hamnewid, cyhyd â bod y Cyngor yn gwneud pob ymdrech resymol i liniaru ei golledion yn hyn o beth.
- 6.2. Bydd unrhyw Nwyddau a wrthodir gan y Cyngor o dan y cymal 6 hwn yn cael eu symud ymaith gan y Contractwr ar ei draul ei hun o fewn 48 awr i'r dyddiad yr hysbysir y Contractwr eu bod wedi'u gwrthod. Os bydd y Contractwr yn methu â symud ymaith y Nwyddau o fewn y cyfnod penodedig, caiff y Cyngor ddychwelyd y Nwyddau ar fenter a thraul y Contractwr a chaiff godi tâl ar y Contractwr am gost storio'r Nwyddau o'r dyddiad y cânt eu gwrthod.

7. CANSLO

- 7.1. Heb niweidio unrhyw hawl arall i derfynu'r Archeb Swydddogol, bydd gan y Cyngor hawl i ganslo'r Archeb Swydddogol neu i derfynu rhan ohoni ar unrhyw adeg:-
 - 7.1.1. os nad yw'r Nwyddau a gyflenwir yn cydymffurfio'n union â'r disgrifiad a roddwyd yn yr Archeb Swydddogol neu yn y fanyleb/lluniadau y bu i'r Cyngor ddiybennu arnynt pan fu iddo ymrwymo i'r Archeb Swydddogol; neu
 - 7.1.2. os nad yw'r deunydd a ddefnyddiwyd yn y Nwyddau neu eu saernïaeth yn cyrraedd y safon benodedig neu os nad yw'n pasio unrhyw archwiliad sy'n ofynnol gan y Cyngor, ei gwsmeriaid neu ei asiant neu gan unrhyw un o adrannau'r Llywodraeth neu gorff statudol arall sy'n ymwneud â'r math o gynnyrch sy'n ffurfio'r Nwyddau neu'r deunyddiau neu'r saernïaeth a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r Nwyddau; neu

- 7.1.3. os nad yw'r Nwyddau neu unrhyw ran ohonynt a/neu'r Gwasanaethau wedi'u cwblhau er boddhad y Cyngor yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni gan y partneriaid yn yr Archeb Swyddogol; neu
- 7.1.4. os yw'r Contractwr yn methu â danfon y Nwyddau neu gyflenwi'r Gwasanaethau yn unol â chymal 5; neu
- 7.1.5. os yw'r amgylchiadau a ddisgrifir yng nghymal 5.3 yn codi; neu
- 7.1.6. os yw'r Contractwr wedi torri unrhyw un o'r Telerau ac Amodau hyn.
- 7.2. Pan fo'r Cyngor yn canslo neu'n terfynu Archeb Swyddogol yn rhinwedd cymal 7.1 uchod, bydd gan y Cyngor hawl i ad-daliad mewn perthynas â Phris y Contract (neu unrhyw rannau ohono) a dalwyd eisoes, ynghyd ag unrhyw golledion a/neu dreuliau y mae wedi mynd iddynt yn uniongyrchol o ganlyniad i'r canslo neu'r terfynu (gan gynnwys yr holl gostau rhesymol i'r Cyngor am yr amser a dreuliwyd gan ei gyflogeion, ei asiantau neu'i gynrychiolwyr yn terfynu'r Archeb Swyddogol ac yn gwneud trefniadau amgen i ddarparu'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau y mae'r Archeb Swyddogol yn ymwneud â hwy, gan gynnwys unrhyw gost ychwanegol sy'n codi o brynu Nwyddau neu Wasanaethau amgen sy'n fwy na'r swm a fyddai wedi bod yn daladwy i'r Contractwr oni bai i'r Archeb Swyddogol gael ei chanslo, ond heb fod yn gyfyngedig iddi).
- 7.3. Yn ôl ei ddisgresiwn yn unig, caiff y Cyngor ganslo Archeb Swyddogol ar unrhyw adeg cyn i'r holl Nwyddau gael eu danfon neu i'r holl Wasanaethau gael eu cyflawni drwy hysbysiad ysgrifenedig i'r Contractwr 48 awr cyn i'r Nwyddau gael eu danfon neu i'r Gwasanaethau gael eu cyflawni. Pan roddir yr hysbysiad hwnnw, bydd y Contractwr yn peidio â bod yn rhwym i ddanfon/gyflawni a bydd y Cyngor yn peidio â bod yn rhwym i dderbyn unrhyw Nwyddau pellach neu unrhyw Wasanaethau pellach. Ni fydd y Cyngor yn rhwym i dalu'r rhan honno o'r pris sy'n ymwneud â'r Nwyddau nas danfonwyd neu'r Gwasanaethau nas cyflawnwyd ac ni fydd yn atebol am unrhyw golled neu ddfrod pa un bynnag sy'n codi o ganslo'r Archeb Swyddogol.
- 7.4. Er gwaethaf ei hawliau a grybwyllwyd eisoes ac unrhyw hawliau a awgrymir gan y gyfraith, bydd gan y Cyngor hawl i derfynu'r Archeb Swyddogol ar unwaith drwy hysbysiad ysgrifenedig os bydd y Contractwr yn cael ei ddiddymu neu os bydd derbynnydd gweinyddol neu weinyddwr yn cael ei benodi ar ei gyfer neu os bydd yn gwneud neu'n cynnig unrhyw drefniant neu gyfansoddiad â chredydwr yn gyffredinol neu os bydd yn rhoi'r gorau i gynnal ei fusnes neu'n sylweddol y cyfan ohono neu'n bygwth rhoi'r gorau i wneud hynny neu os bydd unrhyw ddeiseb neu orchymyn methdal yn cael ei chyflwyno/gyflwyno neu'i (g)wneud yn erbyn y Contractwr.
- 7.5. Ni chaiff y Contractwr ganslo'r Archeb Swyddogol heb ganiatâd y Cyngor y tybir, os y'i rhoddir, ei fod yn cael ei roi ar yr amod datganedig y bydd y Contractwr yn indemnio'r Cyngor yn llwyr ac yn effeithiol yn erbyn unrhyw a phob colled, iawndal, hawliad ac achos sy'n codi o ganslo'r Archeb Swyddogol oni chytunir fel arall yn ysgrifenedig.
- 7.6. Pan gaiff yr Archeb Swyddogol ei chanslo neu ei therfynu dan y cymal 7 hwn, bydd y Contractwr, o fewn 7 diwrnod iddo gael cais i wneud hynny, yn dychwelyd i'r Cyngor yr holl ddogfennau a/neu Ddeunydd a ddarparwyd i'r Contractwr gan y Cyngor ac yn sicrhau bod yr holl ddogfennau a/neu Ddeunydd sy'n cynnwys Hawliau Eiddo Deallusol a/neu wybodaeth o natur dechnegol neu fasnachol sy'n ymwneud â'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau yn cael eu dychwelyd i'r Cyngor.
- 8. GWARANT I ATGYWEIRIO NEU I AMNEWID**
- 8.1. Yn ddarostyngedig i hawliau'r Cyngor yng nghymal 6.1, bydd y Contractwr yn unioni, drwy eu hamnewid, ddiffygion sy'n ymddangos pan gânt eu danfon a/neu ar ôl eu defnyddio'n briodol yn y Nwyddau neu ran ohonynt; neu
- 8.2. diffygion mewn rhannau o'r Nwyddau a allai ddatblygu yn ystod cyfnod o ddeuddeg (12) mis ar ôl dyddiad danfon y Nwyddau ("cyfnod y warant"). Os digwydd hyn, bydd cyfnod y warant yn cael ei hadnewyddu o ran unrhyw Nwyddau neu unrhyw ran ohonynt a gaiff eu haildylunio neu'u cywiro.
- 9. INDEMNIAID AC YSWIRIANT**
- 9.1. Heb niweidio unrhyw rai o hawliau na rhwymedïau'r Cyngor, bydd y Contractwr yn indemnio ac yn parhau i indemnio'r Cyngor rhag ac yn erbyn pob colled, achos, cost (gan gynnwys treuliau

- cyfreithiol ac all daliadau ar sail costau cyfreithiwr a'i gleient ei hun), hawliad, galwad, trafodiad, iawndal, traul ac atebolrwydd o ba bynnag natur a sut bynnag y mae'r Cyngor yn mynd iddynt o ganlyniad i gyflenwi neu ddefnyddio'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau o ran (i) unrhyw anaf personol i unrhyw berson, neu farwolaeth unrhyw berson; (ii) o ran unrhyw golled, dinistr neu ddfrod i unrhyw dir, adeilad, cerbyd, peiriant, cyfarpar neu eiddo arall o ba fath bynnag (boed yn eiddo i'r Cyngor, yn cael ei ddefnyddio ganddo neu yn ei feddiant ai peidio) a fydd wedi digwydd mewn perthynas â'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau a/neu gyflawni'r Archeb Swyddogol gan y Contractwr neu unrhyw un o'i bersonél, wedi deillio ohonynt neu sy'n gysylltiedig â hwy; (iii) unrhyw gyngor a roddwyd neu unrhyw weithred neu anweithred esgeulus neu unrhyw gamymddwyn bwriadol gan y Contractwr neu'i bersonél; (iv) unrhyw doriad gan y Contractwr o unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol trydydd parti; a/neu (v) unrhyw doriad gan y Contractwr o unrhyw rai o'i warantiadau neu'i rwymedigaethau dan y Telerau ac Amodau hyn; oni bai fod hynny wedi'i achosi'n llwyr ac yn uniongyrchol o ganlyniad i unrhyw ddiffyg, esgeulustod neu doriad o ddyletswydd statudol ar ran y Cyngor.
- 9.2. Bydd y Contractwr yn cynnal yswiriant digonol i fodloni pob hawliad rhesymol a allai ddeillio o'r indemniad yng nghymal 9.1 uchod a, pha un bynnag, bydd yr yswiriant hwnnw'n cael ei gynnal ar y lefel ariannol (os o gwbl) a bennir mewn statud. SYLWER: gellir adolygu'r lefelau indemnio ar gyfer contractau penodol ac, mewn rhai achosion, bydd lefel uwch yn ofynnol – rhaid i'r ddau barti gytuno ar y lefel uwch honno yn ysgrifenedig.

10. CYFRINACHEDD A RHYDDID GWYBODAETH

- 10.1. Bydd yr Archeb Swyddogol a'i chynnwys yn cael eu trin yn gyfrinachol gan y Contractwr ac ni fydd y Contractwr, ei gyflogeion, ei asiantau na'i is-gontractwyr yn eu datgelu i unrhyw drydydd parti heb ganiatâd ysgrifenedig y Cyngor ymlaen llaw.
- 10.2. Bydd y Contractwr yn sicrhau nad yw enw na logo'r Cyngor yn cael eu cynnwys mewn unrhyw ddeunydd cyhoeddedig heb ganiatâd ysgrifenedig y Cyngor ymlaen llaw.
- 10.3. Mae'r Contractwr yn cydnabod bod y Cyngor yn ddarostyngedig i ofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("Deddf 2000") a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 ("Rheoliadau 2004") a bydd y Contractwr yn cynorthwyo'r Cyngor i gydymffurfio â'i ddyletswyddau oddi tanynt. Bydd unrhyw geisiadau a dderbynnir gan y Contractwr sy'n ymwneud â datgelu gwybodaeth y mae'r Archeb Swyddogol yn berthnasol iddi yn cael eu trosglwyddo i'r Cyngor er mwyn iddo ymateb o fewn 2 ddiwrnod gwaith iddynt gael eu derbyn.
- 10.4. Mae'r Contractwr yn cydnabod y bydd gan y Cyngor hawl i benderfynu yn ôl ei ddisgresiwn yn unig a yw unrhyw wybodaeth wedi'i hesemtipio rhag cael ei datgelu neu a ddylid ei datgelu dan Ddeddf 2000 neu Reoliadau 2004, gan ymgynghori â'r Contractwr neu heb wneud hynny. Ni fydd y Contractwr ar unrhyw gyfrif yn ymateb i gais am wybodaeth heb ganiatâd ysgrifenedig y Cyngor ymlaen llaw.

11. CYFLOGAETH

- 11.1. Pan fydd yn cyflawni'r Gwasanaethau, bydd y Contractwr yn gweithredu fel contractwr annibynnol, a bydd ganddo statws contractwr annibynnol, ac ni fydd yn gweithredu fel asiant, cyflogai na chynrychiolydd y Cyngor ac ni fydd ganddo statws o'r fath.
- 11.2. Mae'r Contractwr yn ymrwymo i gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth, rheoliadau, codau ymarfer, a nodiadau cyfarwyddyd perthnasol, a gofynion eraill unrhyw asiantaeth berthnasol o'r llywodraeth neu asiantaeth lywodraethol, ynghyd ag unrhyw ofynion rhesymol gan y Cyngor o ran diogelwch a gwiriadau cefndir, ac mae'n ymrwymo i sicrhau bod ei holl gyflogeion, asiantau, cynrychiolwyr ac is-gontractwyr yn cydymffurfio â hwy.
- 11.3. Ar gais rhesymol y Cyngor, bydd y Contractwr ar unwaith (a heb fod unrhyw dâl digolledu'n daladwy i'r Contractwr) yn disodli unrhyw un o'i bersonél neu unrhyw gynrychiolydd arall a awdurdodwyd yn briodol sy'n gweithredu ar ran y Contractwr drwy ddarparu cyflogai neu

gynrychiolwyd arall a awdurdodwyd yn briodol nad oes ganddo lai o statws, gwybodaeth na phrofiad ac a gymeradwyir gan y Cyngor.

12. CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

12.1. Ni fydd y Contractwr yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn aflonyddu ar neb, yn erlid neb, yn cyfarwyddo, achosi, cymell nac yn helpu gan wybod hynny weithredoedd anghyfreithlon, nac yn ymddwyn mewn unrhyw ffordd arall a waherddir ar sail hil, lliw, tarddiad ethnig neu genediaethol, anabled, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd neu gred, nac oedran, a, heb niweidio cyffredinolrwydd yr uchod, ni fydd y Contractwr yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon o fewn ystyr a chwmpas Deddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys unrhyw ddeddfwriaeth gyfatebol sydd mewn grym mewn unrhyw awdurdodaeth lle yr ymgwymerir ag unrhyw weithgareddau dan y Contract, neu mewn cysylltiad ag ef, gan y Contractwr neu unrhyw rai o'i staff neu'i is-gontractwyr), nac unrhyw addasiad statudol neu ailddeddfiad ohoni.

13. ATAL LLYGREDD A THWYLL

13.1. Mae'r Contractwr yn gwarantu ac yn ymrwymo y bydd bob amser yn cydymffurfio â Deddf Llwgwrwobrwyo 2010.

13.2. Ni fydd y Contractwr nac unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r Contractwr yn cynnig nac yn rhoi, nac yn cytuno i roi, i unrhyw un o swyddogion, staff na chynrychiolwyr y Cyngor nac i unrhyw gorff cyhoeddus arall unrhyw rodd neu gydnabyddiaeth o unrhyw fath fel cymhelliad neu wobwr am wneud neu beidio â gwneud, neu am fod wedi gwneud neu beidio â gwneud, unrhyw weithred mewn perthynas â chael neu gyflawni'r Archeb Swyddogol neu unrhyw gontract arall â'r Cyngor neu unrhyw gorff cyhoeddus arall, neu am ddangos neu beidio â dangos ffafriaeth neu anffafriaeth i unrhyw berson mewn perthynas â'r Archeb Swyddogol neu unrhyw archeb o'r fath.

13.3. Bydd y Contractwr yn cymryd pob cam rhesymol, yn unol ag arferion da'r diwydiant, i atal twyll gan staff a'r Contractwr (gan gynnwys ei gyfranddalwyr, ei aelodau a'i gyfarwyddwyr) mewn perthynas â derbyn arian gan y Cyngor, a bydd yn hysbysu'r Cyngor ar unwaith os oes ganddo reswm i amau bod unrhyw dwyll wedi digwydd neu'n debygol o ddigwydd mewn perthynas ag unrhyw gontract â'r Cyngor.

13.4. Bydd unrhyw doriad o'r ymddygiad a waherddir gan gymalau 13.1 i 13.3 (gan gynnwys y cymalau hynny) yn cael ei drin fel diffyg sylweddol ar ran y Contractwr a bydd gan y Cyngor hawl i derfynu'r Archeb Swyddogol ar unwaith. Pan gaiff yr Archeb Swyddogol ei therfynu o dan y cymal 13 hwn, bydd gan y Cyngor hawl i adennill yn llwyr unrhyw a phob colled a barwyd i'r Cyngor o ganlyniad i'r toriad (gan gynnwys yr holl gostau rhesymol i'r Cyngor am yr amser a dreuliwyd gan ei gyflogaion, ei asiantau neu'i gynrychiolwyr yn terfynu'r cytundeb ac yn gwneud trefniadau amgen i ddarparu'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau, gan gynnwys unrhyw gost ychwanegol sy'n codi o brynu Nwyddau neu Wasanaethau amgen sy'n fwy na'r swm a fyddai wedi bod yn daladwy i'r Contractwr oni bai i'r Archeb Swyddogol gael ei chanslo, ond heb fod yn gyfyngedig iddi).

14. DIOGELU DATA

14.1. Bydd y Contractwr yn cydymffurfio ym mhob ffordd â darpariaethau Deddf Diogelu Data 2018 ("Deddf 2018") a bydd yn indemnio'r Cyngor rhag pob achos, cost, traul, hawliad, trafodiad a galwad a wneir neu a gaiff ei ddwyn yn erbyn y Cyngor am dorri dyletswydd statudol dan Ddeddf 2018 sy'n codi o ddefnyddio, datgelu neu drosglwyddo data personol gan y Contractwr a/neu ei weision a'i asiantau.

15. Y GYMRAEG

15.1. Pan fo'n gymwys mewn perthynas â chyflawni'r Contract, bydd y Contractwr yn mabwysiadu gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac yn gwneud ei ymdrech orau i gydymffurfio â hwy, a bydd ymhellach yn ymlynu wrth yr egwyddorion a nodir yn Safonau'r Cyngor o ran y Gymraeg

(neu unrhyw bolisi neu gynllun dilynol i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol). Ceir copi llawn o'r Safonau ar wefan y Cyngor.

16. DATRYS ANGHYDFOD

16.1. Os ceir anghydfod rhwng y Cyngor a'r Contractwr mewn cysylltiad â'r Telerau ac Amodau hyn, bydd y Cyngor a'r Contractwr yn gwneud pob ymdrech resymol i ddatrys y mater ar sail gyfeillgar. Os bydd y Cyngor a'r Contractwr yn methu â datrys yr anghydfod hwnnw, cyfeirir yr anghydfod at uwch-swyddog yn y Cyngor ac ym musnes y Contractwr. Ni fydd darostyngiad y naill barti na'r llall i'r cymal hwn yn cyfyngu ar ei hawl i gychwyn unrhyw achos mewn unrhyw Lys ag awdurdodaeth gymwys yng Nghymru a Lloegr.

17. CYDYMFFURFIO Â DEDDFAU ATAL CAETHWASIAETH A MASNACHU MEWN POBL

17.1. Pan fydd yn cyflawni ei rwymedigaethau dan y Contract, bydd y Contractwr:

17.1.1. yn cydymffurfio â phob deddf, statud, rheoliad a chod cymwys atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl sydd o dro i dro mewn grym, gan gynnwys Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, ond heb fod yn gyfyngedig iddi;

17.1.2. yn llunio ac yn cynnal drwy gydol cyfnod y Contract ei bolisiau a'i weithdrefnau ei hun i sicrhau ei fod yn cydymffurfio;

17.1.3. yn peidio ag ymgymryd ag unrhyw weithgaredd, arfer nac ymddygiad a fyddai'n drosedd dan adrannau 1, 2 neu 4 o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 pe bai'r gweithgaredd, yr arfer neu'r ymddygiad yn cael ei gyflawni yn y DU; ac

17.1.4. yn peri iddi fod yn ofynnol i bob un o'i is-gontractwyr a'i gyflenwyr uniongyrchol gydymffurfio â'r deddfau, statudau, rheoliadau a chodau atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl sydd o dro i dro mewn grym, gan gynnwys Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, ond heb fod yn gyfyngedig iddi.

18. CYFFREDINOL

18.1. Ni fydd unrhyw hepgoriad gan y Cyngor o unrhyw doriad o'r Telerau ac Amodau gan y Contractwr yn cael ei ystyried yn hepgoriad o unrhyw doriad dilynol o'r Telerau ac Amodau hynny nac unrhyw ddarpariaeth arall.

18.2. Ni fydd y Contractwr, heb ganiatâd ysgrifenedig y Cyngor ymlaen llaw, yn aseinio nac yn is-gontractio unrhyw un o'i rwymedigaethau dan yr Archeb Swyddogol na'r Telerau ac Amodau hyn.

18.3. Rhaid cyflwyno pob cyfathrebiad ynghylch y Telerau ac Amodau hyn a'r Archeb Swyddogol yn ysgrifenedig i'r person a enwir yn yr Archeb Swyddogol.

18.4. Ni fydd unrhyw beth yn y Telerau ac Amodau na'r Archeb Swyddogol yn creu unrhyw hawliau i drydydd partïon dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999.

18.5. Bydd y Telerau ac Amodau ym mhob ffordd yn cael eu llywodraethu gan ddeddfau Cymru a Lloegr a'u dehongli yn unol â hwy, a byddant yn ddarostyngedig i awdurdodaeth unigryw llysoedd Cymru a Lloegr.